# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2014** |
| Amser: | **08:30 - 08:46** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru**<br>**Claire Fife, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y newidiadau ym musnes y Llywodraeth.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Pwyllgor Busnes ei bod wedi cytuno i gynnig i newid aelodaeth Plaid Cymru o'r Pwyllgor Cyllid (Alun Ffred Jones i gymryd lle Simon Thomas), Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Alun Ffred Jones i gymryd lle Jocelyn Davies), Y Pwyllgor Menter a Busnes (Dafydd Elis-Thomas i gymryd lle Alun Ffred Jones), a'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog (Jocelyn Davies i gymryd lle Elin Jones) gael ei gymryd yn union ar ôl y Datganiad a'r Cyhoeddiad Busnes ddydd Mawrth.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mercher cyn y Ddadl Fer.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher 12 Chwefror 2014 yn cael eu symud i ddydd Mercher 5 Chwefror, a chytunwyd nad oedd angen atal y Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn i hynny ddigwydd.

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod y trefniadau ar gyfer Dadl Cyfnod 3 sydd ar ddod ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 12 Chwefror 2014**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Barthau Menter (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)